

RHYBUDD o Benderfyniadau o'r cyfarfod rhithiol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf, 2021.

Dogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.

Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllodiad o'r gweithgareddau].

Yn bresennol: Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Richard O Jones

Hefyd yn bresennol: Aelodau Lleol: Cynghorwyr Carwyn Jones ac Alun Roberts (cais 7.6, 7.7 a 12.2), J Arwel Roberts (cais 7.3), Aled M Jones (cais 7.4).

Cynghorydd Bryan Owen.

1.00 o'r gloch yp - 2.10 o'r gloch yp

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 DATGANIAD O DDIDDORDEB
PENDERFYNIAD	Bu'r Cynghorydd John Griffith ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 7.5.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 COFNODION
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar yr 2il o Fehefin 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 YMWELIAD SAFLEOEDD
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau safle rhithiol a gynhaliwyd ar y 16eg o Fehefin, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 SIARAD CYHOEDDUS
PENDERFYNIAD	Roedd siaradwyr cyhoeddus yn bresennol mewn perthynas â chais 7.2.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 CEISIADAU'N CODI
PENDERFYNIAD	<p>7.1 HHP/2021/35 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 54 Pennant, Llangefni</p> <p>Roedd y cais wedi'i dynnu'n ôl.</p> <p>7.2 FPL/2021/71 - Cais llawn ar gyfer cadw'r strwythur presennol a pharhau a'r gwaith o godi uned gwyliau ynghyd a gwaith cysylltiedig ar dir yn Bryn Gollen Newydd, Llannerchymedd</p> <p>PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog.</p> <p>7.3 FPL/2021/38 - Cais llawn ar gyfer gosod 2 pod glampio ynghyd â chreu mynedfa newydd a datblygiadau cysylltiedig ar dir ger Gwel y Môr, Penrhosfeilw, Caerdybi</p> <p>PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog.</p> <p>7.4 VAR/2021/27 - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) (Cynlluniau a cymeradwywyd) a (03) (Mynedfa a man parcio) o ganiatâd cynllunio rhif FPL/2019/322 (newid defnydd eglwys i annedd gyda adeiladu mynedfa cerbydau newydd) er mwyn diwygio'r man parcio i hepgor darparu trofwrdd yn Christ Church, Rhosybol</p> <p>PENDERFYNWYD gohirio'r penderfyniad ar y cais am y rhesymau a roddwyd.</p> <p>7.5 FPL/2020/247 - Cais llawn ar gyfer codi 9 annedd ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir</p>

	<p>ger Stad Y Bryn, Llanfaethlu</p> <p>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>7.6 HHP/2020/253 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Plot H, Lleiniog, Penmon</p> <p>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>7.7 FPL/2020/165 - Cais llawn ar gyfer trosi'r adeilad allanol i fod yn uned gwyliau yn Outbuilding 1, Lleiniog, Penmon</p> <p>PENDERFYNWYD gohirio'r penderfyniad ar y cais am y rhesymau a roddwyd.</p>
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 CEISIADAU ECONOMAIDD
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 CEISIADAU'N GWYRO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION
PENDERFYNIAD	11.1 DAG/2021/12 – Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn Tre Angharad,

	<p>Ffordd Llundain, Bodedern</p> <p>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 GWEDDILL Y CEISIADAU
PENDERFYNIAD	<p>12.1 FPL/2021/56 – Cais llawn ar gyfer estyniad i'r annedd, creu anecs, estyniad i'r cwrtil a dargyfeirio llwybr cyhoeddus yn Cae Llechwen, Llangristiolus</p> <p>PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog.</p> <p>12.2 FPL/2019/338 – Cais llawn ar gyfer tynnu rhan o'r morglawdd concriid presennol a chodi morglawdd newydd yn ei le ar y ffin yn Cerrig, Penmon</p> <p>PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle rhithiol yn unol â chais yr Aelod Lleol.</p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 MATERION ERAILL
PENDERFYNIAD	<p>13.1 HHP/2020/278 – Cais llawn ar gyfer codi garej dwbl yn Pen y Gaer, Llanddaniel</p> <p>PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.</p>